

## Cofion

Parhawn i gofio am y cleifion yn ein plith – Gwyneth Rawson a Lowri Gwyn Rossington (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd; Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Gymunedol Yr Wyddgrug; a Gwyn Jones (Peniel) yn yr Inffirmari. Anfonwn ein cofion atynt oll a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy, a'r rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid, i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

## I ddod

- **BYW A DWEUD** – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill gyda Mike Adams, Chloe Richards a Dai Hankey yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Mawrth 10fed. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. Cost y diwrnod, gan gynnwys cinio ysgafn yng Ngholeg y Bala, fydd £10 (os mewn addysg) neu £15 (os mewn gwaith). Mae'n bosib cofrestru ar-lein trwy fynd i dudalen 'Byw a Dweud' ar wefan [souledoutcymru.net](http://souledoutcymru.net), neu cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565).
- **CYMDEITHAS CAPEL SARON** – Noson gyda Wil Tân yng Nghlwb Rygbi Dinbych, nos Sadwrn, Mawrth 24ain. Tocyn £10 yn cynnwys bwyd. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu Emyr Rees (01745) 550261.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) am fwy o fanylion a ffurflen archebu.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: [www.wordaliveevent.org](http://www.wordaliveevent.org)
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fercher, Ebrill 11eg am 7.30 yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.

## Darllenid Wythnos Nesaf

Rhufeiniaid 8:12-17 (BCND tud.172 / BCN tud.157)



# Llais Bro Aled

## Dydd Sul, 18<sup>fed</sup> Chwefror 2018

**Darllenid y Dydd**  
Deuteronomium 33:26-29  
(BCND tud.196 / BCN tud.179)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i bob un ohonoch i'n gwasanaethau. Tybed beth ydych chi'n ei ddisgwyl wrth i ni ddod at ein gilydd heddiw? Sul cyffredin o fwynhau cymdeithasu gyda'n cyd-aelodau, cael moli'r Arglwydd a gwrandao ar ei Air? Faint ohonom sydd wrth fynd i'r capel yn disgwyl cael ein newid gan Dduw? Oherwydd dyna anogaeth Rhufeiniaid 12:2 Beibl.net – i ni adael i Dduw 'newid eich bywyd chi'n llwyr drwy chwyldroi eich ffordd o feddwl am bethau. Byddwch yn gwybod wedyn beth mae Duw eisiau, ac yn gweld fod hynny'n dda ac yn ei blesio fe, ac mai dyna'r peth iawn i'w wneud.'

Golyga hyn ein bod trwy nerth ac arweiniad yr Ysbryd Glân yn barod i gyflwyno'n hunain fel aberth i'r Arglwydd, gan droi cefn ar ein hen ffordd bechadurus o feddwl a gweithredu. Ac wrth gwrs, mae hon yn broses barhaus i'r Cristion, lle'r ydym yn gwrandao ac yn ufuddhau i lais y Bugail Da sydd wedi rhoi ei einioes dros y defaid. (Ioan 10:11)

Os yw hynny'n gwneud i ni deimlo braidd yn anghyfforddus rhaid i ni holi'n hunain, ydym ni'n ymddiried ym mwriadau Duw ar ein cyfer, neu'n tybio fod ein cyfforddusrwydd yn well i ni na'r hyn y mae'r Tad nefol yn ei ddymuno i'w blant?

Mae'n darllenid ar y cyd o ddiwedd Deuteronomium yn cynnwys disgrifiad hyfryd o Dduw ddylai wneud i ni feddwl eto pam ydym ni'n petruso rhag ymddiried ynddo. 'Duw'r oesoedd yw dy noddfa, (lle diogel, Beibl.net) ac oddi tanodd y mae'r breichiau tragwyddol.' (33:27) Disgrifiad hyfryd, ond wrth ddarllen yr holl adnodau sy'n cael eu cynnwys ar ddiwedd pennod 33 sylweddolwn fod gwedd ddigon ymosodol i'r hyn y mae Duw wedi ei wneud dros ei bobl hefyd. Oherwydd wrth achub ei bobl, mae'r Arglwydd wedi gorfod trechu'r gelyn. Ac wrth i ni edrych ymlaen at y Pasg, gwelwn fod achubiaeth y Cristion wedi'i sicrhau wrth i Grist drechu'n gelynydd pennaf ni (pechod, marwolaeth, y diafol) trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad. Os yw Duw felly wedi mynd i'r fath drafferth er mwyn ein hachub rhag y gelyn all ein dinistrio, pam ydym ni'n ofni gadael iddo barhau i weithio ynom er daioni o ddydd i ddydd? 'Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll. Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef?' (Rhufeiniaid 8:32)

Diolchwn heddiw fod Duw wedi gweld ein cyflwr truenus ac wedi dod yng Nghrist i'n hachub, ac ildiw'n ein hunain iddo yn ffyddiog 'y bydd i'r hwn a ddechreuodd waith da ynoch ei gwblhau erbyn Dydd Crist Iesu.' (Philipiad 1:6)

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 21<sup>ain</sup> ➤ **Dal i Gred** – sesiwn holi a thrafod yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 22<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- Gwener – 23<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00, ac ar ddechrau'r oedfa, bydd yr eglwys yn gofyn, trwy bleidlais gudd, farn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 20<sup>fed</sup> ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30. Bydd cyfle hefyd i fwynhau sesiwn bowlïo dan do dan ofal Gill Stafford, Abergele. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 21<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (18<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 10.00.
- Mawrth – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00 a bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa yno am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.
- Gwener – 23<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW (18<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

### Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwys Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**